



DEWCH I 'NABOD...

Sôn am Lyfra sy'n holi'r awdur a'r arlunydd.

LUNED AARON

Diolch am y sgwrs!

FFEITHIAU FFLACH

Dyddiad geni: 08/03/81

Ganwyd yn: Bangor

Byw yn: Caerdydd

Ffaith diddorol: Sioned Emyr, nid Luned Emyr, oedd fy enw am fy wythnos gyntaf ar y ddaear!

Beth ydi dy gefndir a be ti'n wneud rŵan?

Dw'i wedi mwynhau gyrfa amrywiol ym maes sgriptio, cynhyrchu a chyflwyno rhaglenni teledu, yn ogystal ag arddangos fy ngwaith gweledol mewn orielau a gweithio ym maes cynllunio setiau theatr am gyfnod.

Erbyn hyn, dwi'n cyfuno fy niddordeb yn y geiriol a'r gweledol trwy ysgrifennu a darlunio llyfrau plant.

Ers 2019, dwi'n cyd-redeg gwasg Llyfrau Broga, gyda fy ngŵr, Huw Aaron. Ein gobaith gyda'r wasg ydi y byddwn ni'n hybu a chynorthwyo to newydd o awduron ac arlunwyr llyfrau plant yng Nghymru.

Beth wnaeth dy ysbrydoli i ddechrau ysgrifennu llyfrau?

Heb os, roedd fy rhieni ac ambell i athro yn Ysgol Gynradd y Garnedd, Ysgol Uwchradd Tryfan ac Ysgol Ddrama Glanaethwy, yn fy annog i i 'sgwennu, ac roedd ennill gwobrau mewn ambell i eisteddfod yn sicr yn hwb ac yn ysgogiad i ddal ati.

O edrych yn ôl, mae'n siŵr gen i fod gweld fy nhad yn gweithio ar ei liwt ei hun am gyfnod, yn ysgrifennu a golygu llyfrau, yn dangos i mi fod creu llyfrau yn rhywbeth oedd yn bosib i'w wneud.

O ran ysgrifennu yn benodol ar gyfer plant, yna, heb os, cael plant fy hun oedd yr ysgogiad. Agorodd hyn fyd newydd imi wrth imi ddarllen llyfrau hyfryd ac amrywiol iddyn nhw a gweld y posibiladau.




Dw'i wastad wedi mwynhau cyfuno ysgrifennu ac agweddau gweledol, ac felly mae'r byd yma o greu llyfrau i gynulleidfa ifanc (sydd angen yr elfen weledol), yn gyfuniad sy'n gweithio'n dda i mi ac yn gyfuniad sy'n fy nghyflawni'n greadigol.

Pa lyfrau wnaeth ddylanwadu arnat fel darllenwr ifanc?

Mi wnes i dyfu i fyny mewn tŷ llawn llyfrau, ac roeddwn i wrth fy modd yn ymgolli wrth ddarllen o oedran ifanc.

Dwi'n cofio pan ro'n i'n ifanc iawn i mi fwynhau cyfresi Mary Vaughan Jones a Jac Jones, cyfresi y Storiâu Hud, yn ogystal â llyfrau Elwyn Ioan, Angharad Tomos a chyfrolau y pâr dawnus, Janet ac Allan Ahlberg.

Pan yn hŷn, ro'n i'n mwynhau nofelau a chyfresi gan awduron fel Angharad Tomos (eto!), T. Llew Jones, Gareth F. Williams, Irma Chilton, Judy Blume, Gwenno Hywyn, Patricia St John, Mihangel Morgan ac Enid Blyton. Roedd Luned Bengoch gan Elizabeth Watkin-Jones yn ffeffryn arall. Unwaith y byddwn i'n dod o hyd i awdur oedd yn plesio, mi fyddwn i'n llyncu swmp go dda o'u llyfrau nhw!



LUNED AARON



Beth yw dy llyfr diweddaraf i blant?

Mae'r Cyfan i Ti (Atebol) ydi fy llyfr diweddaraf. Mi wnes i greu'r gyfrol yn ystod cyfnod y cloi mawr yn y gwanwyn, ac mi roedd dipyn o syniadau yn dod wrth imi fynd am dro ynghanol byd natur gyda'r plant.

'Ro'n i'n awyddus i greu cyfrol dyner, addfwyn a chadarnhaol a fyddai'n help i'r plentyn noswyllo wrth iddyn nhw gael eu cyflwyno i'r pum synnwyr. Mae'r gyfrol ar ffurf mydr, ac mae clywed rhieni'n dweud fod y rythm sydd yn llif y llyfr yn gymorth i suo eu rhai bach i gysgu yn galonddid i mi, gan mai dyma oedd rhan o weledigaeth y gyfrol.

Elfen arall allweddol i'r llyfr ydi'r pwyslais ar harddwch byd natur o'n cwmpas. Yn ogystal â chyflwyno plant bach i'r pum synnwyr, ro'n i am dynnu eu sylw at rodd rhyfeddol natur, ac yn fwiadol, roeddwn i'n dewis elfennau cyfarwydd i blant Cymru - pethau fel cân yr adar yn y bore, arogl rhosod neu deimlad garw rhisgl coeden.

Dwi'n gobeithio y bydd y darllenwyr ifanc, a hŷn, yn mopio o'r newydd at rai o ryfeddodau byd natur wrth fwynhau'r gyfrol gyda'i gilydd, ac y byddan nhw'n cael eu hysgogi i chwilio am rai o'r elfennau hynny eu hunain o ganlyniad.



Beth sydd orau - llyfr go iawn neu e-lyfr?




Llyfr go iawn, dim dowt amdani! Dw'i ddim wedi prynu Kindle - gwell gen i gael cyfrol go iawn yn fy llaw. I mi, mae darllen cyfrol dda yn fodd o ymgolli a dianc o'r byd a'i brysurdeb technolegol.



Oes gen ti hoff/gas gymeriad o ffilm neu stori?

Ah, un o fy hoff gymeriadau o ffilm fyddai Maria (Julie Andrews) yn The Sound of Music. Person llonog, chwareus a chadarnhaol!

Roedd Blodeuwedd, yr ymgyrchydd iaith, yn y nofel ar ffurf dyddiadur, Yma o Hyd gan Angharad Tomos, yn dipyn o arwres imi pan yn ifanc.



Wyt ti'n dechrau gyda'r lluniau neu'r geiriau wrth greu llyfr?

Y geiriau fydd yn dod imi fel arfer, er, mae'n gallu bod yn broses organig gyda'r geiriau a'r delweddau yn bwydo oddi ar ei gilydd.

Beth sy'n gwneud llyfr da?

Mae'n dibynnu ar y gyfrol. O ran llyfrau sydd wedi eu hanelu at blant ifanc, mae'r elfen weledol mor, mor bwysig - fedrwn ni ddim esgeuluso'r wedd yma. Mewn nofelau, mae cymeriadau crwn sy'n argyhoeddi yn help o'r mwyaf i'r darllenydd.



LUNED AARON




Pa neges sydd gen ti i ysbrydoli darllenwyr/ysgrifenydd ifanc?

Darllenwch, darllenwch, darllenwch!
A darllenwch y llyfrau sy'n dod â boddhad i chi.

Mi fyddwn i hefyd yn eich annog i wneud arfer o gadw dyddiadur cyson neu lythyru efallai gyda ffrind/iau.

Arfer arall y byddai'n ei ymarfer ar gyfnodau ydi'r hyn a elwir yn morning pages, sef ysgrifennu tair tudalen o lif yr ymwybod yn y bore bach. Mae syniadau annisgwyl yn aml yn deillio o'r broses yma.

Mae'n arfer da hefyd i nodi syniadau pan fyddan nhw'n taro yn ystod y dydd, rhag iddyn nhw fynd yn angof.



© Ffion Rhys

Oes llyfr/prosiectau newydd ar y gorwel?



Tydi syniadau byth yn brin ac mae gen i ambell i gyfrol yn yr arfaeth, gan gynnwys dwy gyfrol ar y cyd gyda Huw - Nos Da Tanwen a Twm (Gwasg Carreg Gwalch) a Pam? (Y Lolfa). Braf ydi cydweithio.

Unrhyw beth arall?



Dwi'n teimlo ei fod yn gyfnod cyffrous yn y byd cyhoeddi yng Nghymru, gyda'r amrywiaeth sydd gyda ni a chyfrolau yn dechrau cael mwy o gydnabyddiaeth y tu hwnt i Glawdd Offa.

Ein pwyslais mawr gyda gwasg Llyfrau Broga fydd y wedd weledol i lyfrau gan fod hon yn elfen hollbwysig mewn llyfrau i blant a phobl ifanc. Bydd rhoi lle blaenllaw i fwynhad mewn llyfrau yn bwyslais arall.

Mae'n fraint cael bod yn rhan fach o'r tîm eang sy'n creu llyfrau i blant ein gwlad - Cymry'r dyfodol!

Dathlodd Tŷ Newydd ei ben-blwydd yn 30ain oed yn ddiwedddar. Sut brofiad oedd bod yno?

Am le arbennig! Mae gen i feddwl y byd o ganolfan ysgrifennu Tŷ Newydd. 'Ro'n i'n ddwy ar bymtheg oed yn mynychu fy nghwrs cyntaf yno, a dwi wedi elwa'n fawr o fynd ar nifer o gyrsgiau amrywiol yno ers hynny.

Mi fydda'i wastad yn cael fy ysbrydoli wrth gael y cyfle i arbrofi a datblygu syniadau yno, ymhell o ruther bywyd ac mewn lleoliad mor arbennig, a hynny o dan ofal tiwtoriaid dawnus. Yn Nhŷ Newydd y gwnes i roi cychwyn ar fy llyfr diweddaraf.

